Joint review | Cydadolygiad

Holiadur ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol



SSIW AGCC
SOCIAL SERVICES INSPECTORATE FOR WALES
AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal?

Helpwch ni i wybod

Pam rydyn ni'n cynnal yr arolwg hwn?

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i archwilio ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal.

Rydyn ni am wybod am brofiadau pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae'r daflen sydd ynghlwm yn egluro beth yw pwrpas yr adolygiad a pham fod eich barn chi mor bwysig.

Pam fod yr arolwg hwn yn bwysig?

Bydd yr arolwg hwn yn helpu i wella'r gwasanaethau cymdeithasol y mae pobl yn eu cael gan y cyngor.

Pam anfon yr holiadur hwn ataf i?

Mae eich enw wedi'i ddewis ar hap o restr gyfrinachol o bobl sydd â chysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol. Ni fydd neb yn gwybod mai eich sylwadau chi ydyn nhw.

Pwy ddylai lenwi'r holiadur?

Dylech ateb o safbwynt y person sydd â'i enw ar yr amlen.

Os ydych am help i'w lenwi, gallwch ofyn i aelodau eraill o'ch teulu neu ffrind, neu eiriolydd os oes gennych un.

Sut mae llenwi'r ffurflen?

Mae Rhan 1 o'r holiadur yn gofyn i chi am eich profiad o'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y misoedd diwethaf. Y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw rhoi tic yn y blwch sydd agosaf at eich barn chi.

Mae Rhan 2 yn gofyn i chi roi sylwadau ychwanegol. Mae croeso i chi wneud hynny os dymunwch.

Sut ddylwn i ddychwelyd y ffurflen ar ôl ei llenwi?

Anfonwch hi atom yn yr amlen a roddwyd i chi. Does dim angen stamp.

DIOLCH AM HELPU

RHAN 1 - Cael Gwasanaeth

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*
1. Roedd hi'n hawdd cael gwybodaeth glir am y gwasanaethau y gallwn fod eu hangen.	☐	☐	☐	☐
2. Rwy'n cael ymateb da pan fyddaf yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol:				
(a) Yn ystod y dydd	☐	☐	☐	☐
(b) Fin nos neu ar benwythnosau.	☐	☐	☐	☐
3. Rwyf wedi gweld asesiad ysgrifenedig y gwasanaethau cymdeithasol o'm hanghenion.	☐	☐	☐	☐
4. Rwyf wedi cael fy nghynnwys yn llawn yn y broses o benderfynu pa help neu wasanaethau ddylwn eu cael.	☐	☐	☐	☐

Defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol

5. Rwyf wedi cael cynllun clir sy'n disgrifio y gwasanaethau y byddaf yn eu cael.	☐	☐	☐	☐
6. Mae fy ngweithiwr cymdeithasol neu fy rheolwr gofal yn ymateb yn gyflym pan fydd newid pwysig yn fy sefyllfa.	☐	☐	☐	☐
7. Mae adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod y gwasanaethau yr wyf yn eu cael.	☐	☐	☐	☐
8. Rwy'n meddwl bod dewis da o wasanaethau ar gael.	☐	☐	☐	☐
9. Rwyf wedi cael cyfle i ddewis y math o ofal yr wyf yn ei gael.	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*
10. Mae'r gwasanaethau yr wyf yn eu cael yn ddibynadwy.	☐	☐	☐	☐
11. Mae'r gwasanaethau yr wyf yn eu cael o ansawdd da.	☐	☐	☐	☐
12. Rwyf yn cael fy nhrin gyda chwrteisi a pharch wrth ddefnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐
13. Rwyf wedi cael yr help yr oeddwn ei angen pan oeddwn ei angen fwyaf.	☐	☐	☐	☐
14. Rwy'n teimlo bod y gwasanaethau cymdeithasol yn deall materion pwysig am fy nghefndir hiliol neu ddiwylliannol.	☐	☐	☐	☐
15. Rwyf wedi medru defnyddio'r iaith o'm dewis i wrth ddelio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐

Canlyniadau

16. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi fy helpu i deimlo'n fwy diogel.	☐	☐	☐	☐
17. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi fy helpu i fyw yn fwy annibynnol.	☐	☐	☐	☐
18. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi fy helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned.	☐	☐	☐	☐

Manylion Personol

Rydym yn gofyn y cwestiynau personol hyn i wneud yn siwr bod yr holiadur yn cael ei lenwi gan bobl o'r holl wahanol grwpiau sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.

Ai dyn neu fenyw ydych chi?

Dyn ☐
Menyw ☐

Faint yw eich oed?

Dros 65 ☐
25-64 ☐
18-24 ☐

Ydych chi wedi'ch cofrestru yn anabl?

Ydw ☐
Nac ydw ☐

Llenwch ddwy ran yr adran hon

(i) Ethnigrwydd

Asiaidd
Bangladeshi ☐
Indiaidd ☐
Pacistani ☐
Unrhyw gefndir Asiaidd arall ☐

Manylwch _____

Du
Affricanaidd ☐
Caribïaidd ☐
Unrhyw gefndir du arall ☐

Manylwch os dymunwch _____

Tsieiniaidd
Unrhyw gefndir Tsieiniaidd ☐

Manylwch os dymunwch _____

Cefndir Ethnig cymysg
Asiaidd a Gwyn ☐
Du Affricanaidd a Gwyn ☐
Du Caribïaidd a Gwyn ☐
Cefndir ethnig cymysg arall ☐

Manylwch os dymunwch _____

Gwyn ☐
Unrhyw gefndir gwyn ☐

Manylwch os dymunwch _____

Unrhyw gefndir ethnig arall ☐

Manylwch os dymunwch _____

Prydeinig neu Brydeinig Cymysg

Sais/Saesnes ☐
Gwyddel/Gwyddeles ☐
Albanwr/Albanes ☐
Cymro/Cymraes ☐
Arall ☐

Manylwch os dymunwch _____

RHAN 2

Os dymunwch, gallwch ddweud wrthym am eich profiad chi o'r gwasanaethau cymdeithasol

Pa wasanaethau fu o'r help mwyaf i chi?

Rhowch enghreifftiau a, lle bo modd, dywedwch pam y buon nhw o help i chi.

Pa welliannau yr hoffech eu gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal?

Rhowch enghreifftiau, lle bo modd.

Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal?

Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur hwn.

Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a roddwyd i chi at:

Arolwg Defnyddwyr/Gofalwyr
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
FREEPOST NAT 8910
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3BR